Dosbarthiadau Meistr Celf Ysgolion Sir Ddinbych: llun o fywyd ansymudol, ond nid fel rydym wedi arfer gydag ef
Denbighshire Schools' Art Masterclasses: still life, but not as we know it

Ym mis Hydref 2018, roedd disgyblion Ysgol y Castell, Ysgol Bro Dyfrdwy ac Ysgol Glan Clwyd wrth eu bodd wrth groesawu'r artist Cymreig enwog, Keith Bowen, i'w hysgolion, ar gyfer dosbarth meistr celf llawn. Dyma oedd y wobr am ennill Cystadleuaeth Celf Ysgolion Sir Ddinbych Syr Kyffin Williams 2018 - cystadleuaeth gelf fawreddog Sir Ddinbych ar gyfer disgyblion mewn ysgolion - wedi'i drefnu i goffáu 100 mlynedd ers geni Syr Kyffin Williams ym 1918.

Keith Bowen

Roedd hwn yn gyfle unigryw i fyfyrwyr cynradd ac uwchradd Sir Ddinbych ddatblygu agwedd gadarnhaol tuag at luniadu, trwy gael profiadau un wrth un gydag artist proffesiynol, lle gallent arsylwi, cael cyfle i ofyn cwestiynnau a rhyngweithio.

Arweiniodd Keith y rhai oedd yn cymeryd rhan yn fedrus drwy'r broses artistig i greu eu lluniau bywyd ansymudol eu hunain trwy adeiladu gosodiad unigryw yn yr ystafell ddosbarth o wrthrychau personol e.e. 'driftwood', caniau dŵr, bwcedi, brwsys, cynwysyddion, ffrwythau a llysiau tymhorol, blodau, dillad, esgidiau, rhubanau a ffabrig.

Ar ddechrau pob dosbarth meistr, dangosodd Keith dechnegau arlunio, cyn rhannu peth o'i waith. Yn fuan, datblygodd yr artistiaid ifanc ddealltwriaeth o'r hyn sy'n hanfodol mewn golygfa o bethau ansymudol trwy gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau gwerthfawrogi celf fel y gallent edrych, ymateb a chymharu enghreifftiau o waith bywyd ansymudol.

Edrychodd y disgyblion ar y sgiliau sy'n gysylltiedig â darlunio arsylwi (llinellau a marciau, siâp a ffurf, tôn a gwead a phersbectif a chyfansoddiad) ac fe'u hanogwyd i arbrofi gydag ystod o gyfryngau

In October 2018, pupils at Ysgol y Castell, Ysgol Bro Dyfrdwy and Ysgol Glan Clwyd were delighted to welcome renowned Welsh artist, Keith Bowen, to their schools, for a full day art masterclass. This was their prize for winning the Sir Kyffin Williams Denbighshire Schools' Art Competition 2018 – Denbighshire's prestigious art competition for pupils in schools - organised to commemorate the 100th anniversary since the birth of Sir Kyffin Williams in 1918.

This was a unique opportunity for Denbighshire primary and secondary students to develop a positive attitude towards drawing, by having first hand experiences with a professional artist, where they could observe, question and interact.

Keith skillfully guided participants through the artistic process to create their own still life by constructing a unique installation in the classroom from personal objects e.g. driftwood, watering cans, buckets, brushes, containers, seasonal fruits and vegetables, flowers, garments, footwear, ribbons and fabric.

At the start of each masterclass, Keith demonstrated drawing techniques and shared some of his work. The young artists soon developed an understanding of what still life is by partaking in a variety of art appreciation activities, so that they could look, respond and compare examples of still life work.

Pupils explored the skills associated with observational drawing (lines and marks, shape and form, tone and texture and perspective and composition) and were encouraged to experiment

(siarcol, pensiliau, pasteli a phastelau olew).

Datblygasant sgiliau darlunio trwy edrych am a chanfod syniadau trwy dasgau ffocws byr.

Yn olaf, creodd y myfyrwyr galeri o'u darnau celf.

Roedd brwdfrydedd a angerdd ddiddiwedd Keith Bowen ar gyfer celf yn sicrhau fod y myfyrwyr wedi cael diwrnod ysbrydoledig i gofio.

with a range of media (charcoal, pencils, pastels and oil pastels).

They developed drawing skills through exploring and drawing ideas through short focused tasks.

Finally, the students created their own still life piece of art work gallery.

Keith Bowen's endless enthusiasm and passion for art guaranteed the students a truly inspirational day to remember.